# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Maesllewellyn**

**Cartref Preswyl Maesllewellyn**
**Lôn yr Eglwys**
**CASTELLNEWYDD EMLYN**
**SA38 9AB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/08/2023

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Maesllewellyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Lleoedd cofrestredig | 40 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 26/04/2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Caiff y rheolwr ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol sy'n darparu gwasanaeth sy'n cael ei werthfawrogi gan y bobl sy'n byw ym Maesllewellyn, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae'n defnyddio'r rhain ac amrywiol ddulliau archwilio ansawdd i sicrhau trosolwg da o'r gwasanaeth.

Mae'r staff gofal wedi'u hyfforddi'n dda, maent yn wybodus ynghylch y bobl sy'n cael gofal a ganddynt a chaiff hyn ei ategu gan y rhai sy'n byw yn y gwasanaeth a'u perthnasau. Mae'r cofnodion gofal yn cyfleu'r unigolion yn dda, yn adlewyrchu eu hanghenion gofal presennol ac yn cynnwys yr unigolion a/neu eu cynrychiolydd.

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn groesawgar. Mae'r décor a'r addurniadau mewnol yn helpu'r bobl i ganfod eu ffordd o gwmpas yn annibynnol ac mae'r gerddi cymunedol yn cynnig lleoedd i'r bobl gymdeithasu a mwynhau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely a dewis eu prydau bwyd a gallant godi a mynd i'w hystafelloedd pan fydd yn gyfleus iddyn nhw. Caiff yr unigolion a/neu eu cynrychiolwyr eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Caiff eu barn am y gwasanaeth ei cheisio gan yr Unigolyn Cyfrifol yn ystod ei hymweliadau Rheoliad 73 a thrwy holiaduron a ddefnyddir i lywio'r adroddiadau ar Ansawdd y Gofal bob chwe mis. Mae'r bobl yn gallu sgwrsioi yn Gymraeg a chânt wybodaeth yn Gymraeg os mai hon yw eu dewis iaith.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn poeni am yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent hefyd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys gwybodaeth am ofynion a dewisiadau'r bobl. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl. Gall y bobl a/neu eu cynrychiolwyr godi pryderon am y gwasanaeth os bydd angen iddynt wneud hynny. Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwylio a hyfforddiant cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r dulliau gofalu cywir.  Mae'r staff yn parchu'r rheolwr a'r dirprwy reolwr sy'n cael cefnogaeth dda gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl a chânt eu cefnogi gan bolisïau a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

Mae'r amgylchedd yn sicrhau llesiant y bobl. Mae'r addurniadau mewnol yn helpu'r bobl i ganfod eu ffordd eu hunain o amgylch y coridorau neu i'w hystafelloedd gwely. Mae'r gerddi yn cynnig lle diogel i'r bobl ymlacio, cwrdd ag ymwelwyr a chymdeithasu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt. Mae'r staff gofal yn deall anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn wybodus am hanesion personol yr unigolion a'u hanghenion gofal penodol yn unol â'u dewisiadau dyddiol. Mae'r gwasanaeth wrthi'n newid i ddefnyddio system cofnodion gofal electronig. Mae'r cofnodion gofal y gwnaethom eu gweld yn rhoi darlun da o'r unigolyn, ei arferion dyddiol a'i anghenion gofal a chymorth penodol. Caiff yr asesiadau risg ategol eu hadolygu'n rheolaidd hefyd. Ceir tystiolaeth dda i ddangos bod y bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal.

Dywedodd y bobl, eu perthnasau a gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth wrthym eu bod yn teimlo bod y gofal a'r cymorth a ddarperir yn gyson dda a dywedwyd, *"I am very happy here, the staff are lovely"*, *"they [care staff] all go out of their way to help and care. [Manager] is so helpful and always keeps me updated on my mother's care. All the seniors are really good too, they are very knowledgeable"* a*"I have no concerns about this home. They follow directions well and always appropriately call the surgery".*

Caiff gweithwyr iechyd a gweithwyr meddygol proffesiynol eu cynnwys yn y broses o ofalu am y bobl a rhoi cymorth iddynt pan fo angen ac mae hyn wedi'i ddogfennu'n dda yn y cofnodion gofal. Mae'r gwasanaeth yn rhan o'r cynllun 'Gwên am Byth' sy'n rhoi arweiniad gwerthfawr a hyfforddiant ar iechyd y geg i bobl sy'n agored i niwed. Dywedodd gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref wrthym *"The manager and seniors are very good, they follow instructions well. they are in contact with the surgery regularly, but these are appropriate calls. I have no concerns about this service".*

Yn ystod nifer o arsylwadau yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y staff gofal yn rhyngweithio'n garedig iawn â'r bobl. Mae nifer o'r staff yn cyfathrebu yn Gymraeg â'r bobl, a gwelsom enghreifftiau o hyn yn ystod yr arolygiad.

Mae'r bobl yn cael dewis pryd i godi a mynd i'r gwely, mae opsiynau amrywiol ar gyfer prydau bwyd bob amser ac mae gwybodaeth ddwyieithog ar gael bob amser. Dywedodd y bobl wrthym "*I like a bit of a lie-in sometimes", "the food is excellent, very tasty. I know I can choose different meals if I want"* ac *"It's a lovely home, I don't like pork so I'm having a salad for lunch. I am very well cared for".*

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel. Yn ystod trafodaethau â'r bobl, dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw ym Maesllewellyn a'u bod yn gallu codi pryderon os bydd angen iddynt wneud hynny. Dywedwyd wrthym "*I speak to the carers if there is a problem"* ac *"I'll let [manager] know if I need to".* Roedd y perthnasau yn teimlo y gallant godi pryderon ac yn credu y byddai'r rheolwr yn mynd i'r afael â nhw. Caiff manylion am weithdrefn gwyno Cyngor Sir Caerfyrddin eu darparu i'r bobl wrth iddynt symud i'r gwasanaeth a'u harddangos mewn ardaloedd cymunedol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu lleihau. Mae'n ofynnol i bob ymwelydd lofnodi wrth fynd i mewn ac allan o'r gwasanaeth. Caiff amrywiaeth o wiriadau ac archwiliadau cynnal a chadw eu cynnal. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi a'u cynnal a'u cadw o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd.

Mae'r ardaloedd cymunedol a'r allanfeydd argyfwng yn daclus ac yn rhydd rhag peryglon. Caiff sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) eu storio'n ddiogel. Caiff systemau mynediad bysellbad eu defnyddio lle yr ystyrir bod angen. Mae larymau argyfwng yn hawdd eu cyrraedd i'w defnyddio gan y bobl ac mae'r staff yn ymateb iddynt yn amserol. Mae'r gwasanaeth yn lân ac nid oes unrhyw arogleuon drwg.

Cefnogir y bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r coridorau wedi'u haddurno a'u personoli i gefnogi symud o gwmpas y gwasanaeth. Mae fframiau arddangos i'w gweld ar ddrysau'r ystafelloedd gwely i helpu i adnabod ystafelloedd unigol. Mae bocsys atgofion yn cael eu defnyddio'n helaeth, wedi'u personoli ar gyfer yr unigolion ac yn berthnasol iddynt. Mae'r ystafelloedd gwely i gyd yn en-suite ac wedi'u personoli yn unol â dymuniadau a dewisiadau'r unigolyn. Mae'r ystafelloedd cymunedol yn groesawgar gyda phlanhigion, lluniau a phwyntiau o ddiddordeb. Mae nifer o ardaloedd eistedd tawel heblaw am y lolfeydd cymunedol er mwyn i'r bobl eu defnyddio. Mae arwyddion dwyieithog i'w cael ymhob rhan o'r cartref ac mae'r byrddau gwybodaeth yn gynnil.

Mae'r gerddi cymunedol yn apelgar i'r bobl eu defnyddio. Fodd bynnag, mae'r lawntiau ychydig yn flêr mewn mannau, ac mae'r rheolwr wedi codi hyn gyda chontractwyr y sefydliad. Mae nifer o ardaloedd eistedd a gwelyau wedi'u codi a borderi sy'n cynnwys digon o blanhigion a llwyni. Mae'r rheolwr ac aelodau o'r staff yn paentio ychydig o ddodrefn yr ardd i'w huwchraddio ac i'w gwneud yn fwy apelgar i'r bobl eu defnyddio. Mae basgedi crog llawn blodau yn hongian wrth y brif fynedfa yn croesawu pobl i'r gwasanaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm o staff gwybodus a hyfforddedig sy'n cael ei gefnogi'n dda. Mae'r gweithwyr gofal yn deall y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn dda a gallant ddarparu manylion am yr unigolion yn eu gofal a'u hanghenion gofal penodol. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn mynychu amrywiaeth eang o gyrsiau hyfforddiant, a chaiff hyn ei ategu drwy ddarllen matrics hyfforddiant y staff. Mae rhai aelodau o'r staff hefyd wedi mynychu cwrs hyfforddiant chwe wythnos mewn dementia. Siaradodd un gweithiwr gofal a fynychodd y cwrs yn bositif iawn am yr hyn a ddysgodd ac am ei syniadau ar gyfer datblyg gofal Dementia o fewn y gwasanaeth yn y dyfodol; *"I really enjoy working here, it's very rewarding being able to support people living with Dementia".*

Dangosodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldeb i amddiffyn y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Caiff y bobl eu symud a'u trin yn ddiogel, a chaiff eu hanghenion unigol eu hystyried. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio a gaiff eu dogfennu yn rheolaidd ynghyd ag arfarniad blynyddol; cadarnhawyd hyn gan y staff y siaradwyd â nhw. Roedd cofnodion y sesiynau goruchwylio a'r arfarniadau yn cadarnhau'r hyn a ddywedwyd wrthym.

Mae'r rheolwr yn cael ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol, sy'n cefnogi tîm staff Maesllewellyn o ganlyniad i hynny. Mae'r gweithwyr gofal yn siarad yn gadarnhaol am y rheolwr, y dirprwy reolwr ac am weithio yn y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym "*I am very happy working here, I get really good support from seniors and the manager"* ac "*I feel very included working here, we are a good team and very well supported by the manager and deputy".*

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod trefniadau llywodraethu trylwyr ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth ac mae wedi cwblhau ymweliadau Rheoliad 73. Mae AGC wedi cael copïau o'i adroddiadau, sy'n dangos ei fod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'r ymweliadau â'r gwasanaeth. Gwnaeth y staff a'r bobl gadarnhau hyn gyda ni. Mae amrywiaeth o adnoddau monitro ac archwiliadau ar waith. Caiff y camau sy'n deillio o'r archwiliadau eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae prosesau recriwtio a dethol cadarn ar waith. Caiff y gwiriadau a'r cliriadau cywir eu cynnal a'u dogfennu cyn i'r staff ddechrau eu cyflogaeth.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac mae AGC yn cael gwybod am ddigwyddiadau yn briodol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi